**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf KSNWT/05761/24

Y Cynghorydd Beca Roberts

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

25 Hydref 2024

Annwyl Cynghorydd Roberts,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mai ynghylch gwasanaethau rheilffordd ar Lein y Cambrian. Hoffwn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb i chi.

Rwy'n deall y rhwystredigaeth a'r siom ynghylch newidiadau i wasanaethau rheilffyrdd ar y lein. Diben adolygiad Trafnidiaeth Cymru o wasanaethau Cymru a gwasanaethau trawsffiniol oedd alinio gwasanaethau'n well â'r galw am deithio ar ôl Covid, lleihau cymhorthdal a thargedu twf refeniw yn y dyfodol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu capasiti lle mae'r mwyaf o'i angen, ond bu ymgysylltu â rhanddeiliaid yn elfen hanfodol o'r gwaith.

O ganlyniad i hyn mae Trafnidiaeth Cymru wedi gwneud rhai newidiadau sy'n golygu eu bod yn gallu cadw rhai gwasanaethau yn ystod cyfnodau prysuraf yr haf. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y teithwyr ledled Cymru, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod y capasiti yn cael ei dargedu lle mae'r mwyaf o'i angen. Wrth gyflwyno'n rhaglen yn genedlaethol, bydd trenau newydd sbon yn cael eu defnyddio ar Lein y Cambrian gan ddarparu mwy o gapasiti, mwy o gysur a hygyrchedd yn ogystal â gwasanaethau mwy dibynadwy. Bydd y trenau newydd hyn hefyd yn sail i'r lefelau uchel cyson o berfformiad yr ydym yn benderfynol o'u cyflawni ledled Cymru, er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r rhwydwaith.

Rydym yn parhau i ddarparu cefnogaeth sylweddol i bob dull o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn uniongyrchol, a thrwy adnoddau Trafnidiaeth Cymru. Rwy'n cydnabod bod Cymru gyfan yn haeddu cael system drafnidiaeth gyhoeddus uchel sy'n diwallu anghenion ei chymunedau, ac rwy'n benderfynol o gyflawni hyn.

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.